## Sunday 14th April 2024
## + The Third Sunday of Easter

### The Collect of the Day

Almighty Father, in your great mercy you gladdened the disciples with the sight of the risen Lord: give us such knowledge of his presence with us, that we may be strengthened and sustained by his risen life and serve you continually in righteousness and truth; through Jesus Christ your Son our Lord, who is alive and reigns with you and the Holy Spirit, one God, now and for ever. AMEN

### The reading from Acts
(3.12-19)

Peter addressed the people, 'You Israelites, why do you wonder at this, or why do you stare at us, as though by our own power or piety we had made him walk? The God of Abraham, the God of Isaac, and the God of Jacob, the God of our ancestors has glorified his servant Jesus, whom you handed over and rejected in the presence of Pilate, though he had decided to release him. But you rejected the Holy and Righteous One and asked to have a murderer given to you, and you killed the Author of life, whom God raised from the dead. To this we are witnesses. And by faith in his name, his name itself has made this man strong, whom you see and know; and the faith that is through Jesus has given him this perfect health in the presence of all of you.

'And now, friends, I know that you acted in ignorance, as did also your rulers. In this way God fulfilled what he had foretold through all the prophets, that his Messiah would suffer. Repent therefore, and turn to God so that your sins may be wiped out.'

### The Psalm
(4)

Answer me when I call, O God of my righteousness: you set me at liberty when I was in trouble; have mercy on me and hear my prayer.

How long will you nobles dis/honour my glory how long will you love vain things and seek after falsehood? But know that the Lord has shown me his marvellous kindness when I call upon the Lord, he will hear me.

Stand in awe, and sin not commune with your own heart upon your bed, and be still. Offer the sacrifices of righteousness: and put your trust in the Lord.

There are many that say, 'Who will show us any good?' Lord, lift up the light of your countenance upon us.

You have put gladness in my heart more than when their corn and wine and oil increase. In peace I will lie down and sleep for it is you Lord, only, who make me dwell in safety.

### The reading from I John
(3. 1-7)

See what love the Father has given us, that we should be called children of God; and that is what we are. The reason the world does not know us is that it did not know him.

Beloved, we are God's children now; what we will be has not yet been revealed. What we do know is this: when he is revealed, we will be like him, for we will see him as he is. And all who have this hope in him purify themselves, just as he is pure.

Everyone who commits sin is guilty of lawlessness; sin is lawlessness. You know that he was revealed to take away sins, and in him there is no sin. No one who abides in him sins; no one who sins has either seen him or known him. Little children, let no one deceive you. Everyone who does what is right is righteous, just as he is righteous.

### The reading from the Gospel of Christ according to Saint Luke
(24.36b-48)

While the eleven and their companions were talking about what they had heard, Jesus himself stood among them and said to them, 'Peace be with you.' They were startled and terrified, and thought that they were seeing a ghost.

He said to them, 'Why are you frightened, and why do doubts arise in your hearts? Look at my hands and my feet; see that it is I myself. Touch me and see; for a ghost does not have flesh and bones as you see that I have.' And when he had said this, he showed them his hands and his feet.

While in their joy they were disbelieving and still wondering, he said to them, 'Have you anything here to eat?' They gave him a piece of broiled fish, and he took it and ate in their presence.

Then he said to them, 'These are my words that I spoke to you while I was still with you – that everything written about me in the law of Moses, the prophets, and the psalms must be fulfilled.'

Then he opened their minds to understand the scriptures, and he said to them, 'Thus it is written, that the Messiah is to suffer and to rise from the dead on the third day, and that repentance and forgiveness of sins is to be proclaimed in his name to all nations, beginning from Jerusalem. You are witnesses of these things.'

### The Prayer following Communion

Living God, your Son made himself known to his disciples in the breaking of bread: open the eyes of our faith, that we may see him in all his redeeming work; who is alive and reigns, now and for ever. AMEN



## Dydd Sul 14eg Ebrill 2024
## + Trydydd Sul y Pasg

### Colect y Dydd

Hollalluog Dad, a wnaethost yn dy drugaredd mawr y disgyblion yn llawen o weld yr Arglwydd atgyfodedig: dyro inni'r fath adnabyddiaeth o'i bresenoldeb, fel y cawn ein hatgyfnerthu a'n cynnal gan ei fywyd atgyfodedig, a'th wasanaethu'n barhaus mewn cyfiawnder a gwirionedd; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. AMEN

### Darlleniad o Actau

(3.12-19)

A phan welodd Pedr hyn, fe anerchodd y bobl: "Chwi Israeliaid, pam yr ydych yn rhyfeddu at hyn? Pam yr ydych yn syllu arnom ni, fel petaem wedi peri iddo gerdded trwy ein nerth neu ein duwioldeb ni ein hunain? Duw Abraham a Duw Isaac a Duw Jacob, Duw ein tadau ni, sydd wedi gogoneddu ei Was Iesu, yr hwn a draddodasoch chwi a'i wadu gerbron Pilat, wedi i hwnnw benderfynu ei ryddhau. Eithr chwi, gwadasoch yr Un sanctaidd a chyfiawn, a deisyf, fel ffafr i chwi, ryddhau llofrudd. Lladdasoch Awdur bywyd, ond cyfododd Duw ef oddi wrth y meirw. O hyn yr ydym ni'n dystion. Ar sail ffydd yn ei enw ef y cyfnerthwyd y dyn yma yr ydych yn ei weld a'i adnabod, a'r ffydd sydd drwy Iesu a roddodd iddo'r llwyr wellhad hwn yn eich gŵydd chwi i gyd.

'Yn awr, frodyr, gwn mai gweithredu mewn anwybodaeth a wnaethoch, fel eich llywodraethwyr hwythau. Ond fel hyn y cyflawnodd Duw yr hyn a ragfynegodd drwy enau'r holl broffwydi, sef dioddefaint ei Feseia. Edifarhewch, ynteu, a throwch at Dduw, er mwyn dileu eich pechodau.'

### Salm

(4)

Ateb fi pan alwaf, O Dduw fy nghyfiawnder! Pan oeddwn mewn cyfyngder, gwaredaist fi; bydd drugarog wrthyf, a gwrando fy ngweddi.

Bobl, am ba hyd y bydd fy ngogoniant yn warth, ac y byddwch yn caru gwagedd ac yn ceisio celwydd? Deallwch fod yr ARGLWYDD wedi neilltuo'r ffyddlon iddo'i hun; y mae'r ARGLWYDD yn gwrando pan alwaf arno.

Er i chwi gynddeiriogi, peidiwch â phechu; er i chwi ymson ar eich gwely, byddwch ddistaw. Offrymwch aberthau cywir, ac ymddiriedwch yn yr ARGLWYDD.

Y mae llawer yn dweud, "Pwy a ddengys i ni ddaioni?" Cyfoded llewyrch dy wyneb arnom, ARGLWYDD.

Rhoddaist fwy o lawenydd yn fy nghalon na'r eiddo hwy pan oedd llawer o ŷd a gwin. Yn awr gorweddaf mewn heddwch a chysgu, oherwydd ti yn unig, ARGLWYDD, sy'n peri imi fyw'n ddiogel.

### Darlleniad o I Ioan

(3.1-7)

Gwelwch pa fath gariad y mae'r Tad wedi ei ddangos tuag atom: cawsom ein galw yn blant Duw, a dyna ydym. Y rheswm nad yw'r byd yn ein hadnabod ni yw nad oedd yn ei adnabod ef.

Gyfeillion annwyl, yn awr yr ydym yn blant Duw, ac nid amlygwyd eto beth a fyddwn. Yr ydym yn gwybod, pan fydd ef yn ymddangos, y byddwn yn debyg iddo, oherwydd cawn ei weld ef fel y mae. Ac y mae pob un y mae'r gobaith hwn ganddo, yn ei buro ei hun, fel y mae Crist yn bur.

Y mae pob un sy'n cyflawni pechod yn gwneud anghyfraith hefyd; anghyfraith yw pechod. Yr ydych yn gwybod bod Crist wedi ymddangos er mwyn cymryd ymaith bechodau; ac ynddo ef nid oes pechod. Nid oes neb sy'n aros ynddo ef yn pechu; nid yw'r sawl sy'n pechu wedi ei weld ef na'i adnabod ef. Blant, peidiwch â gadael i neb eich arwain ar gyfeiliorn. Y mae'r sawl sy'n gwneud cyfiawnder yn gyfiawn, fel y mae ef yn gyfiawn.

### Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant Luc

(24.36b-48)

Wrth iddynt ddweud hyn, ymddangosodd ef yn eu plith, ac meddai wrthynt, "Tangnefedd i chwi." Yn eu dychryn a'u hofn, yr oeddent yn tybied eu bod yn gweld ysbryd.

Gofynnodd iddynt, "Pam yr ydych wedi cynhyrfu? Pam y mae amheuon yn codi yn eich meddyliau? Gwelwch fy nwylo a'm traed; myfi yw, myfi fy hun. Cyffyrddwch â mi a gwelwch, oherwydd nid oes gan ysbryd gnawd ac esgyrn fel y canfyddwch fod gennyf fi." Wrth ddweud hyn dangosodd iddynt ei ddwylo a'i draed.

A chan eu bod yn eu llawenydd yn dal i wrthod credu ac yn rhyfeddu, meddai wrthynt, "A oes gennych rywbeth i'w fwyta yma?" Rhoesant iddo ddarn o bysgodyn wedi ei rostio. Cymerodd ef, a bwyta yn eu gŵydd.

Dywedodd wrthynt, "Dyma ystyr fy ngeiriau a leferais wrthych pan oeddwn eto gyda chwi: ei bod yn rhaid i bob peth gael ei gyflawni sy'n ysgrifenedig amdanaf yng Nghyfraith Moses a'r proffwydi a'r salmau."

Yna agorodd eu meddyliau, iddynt ddeall yr Ysgrythurau. Meddai wrthynt, "Fel hyn y mae'n ysgrifenedig: fod y Meseia i ddioddef, ac i atgyfodi oddi wrth y meirw ar y trydydd dydd, a bod edifeirwch, yn foddion maddeuant pechodau, i'w gyhoeddi yn ei enw ef i'r holl genhedloedd, gan ddechrau yn Jerwsalem. Chwi yw'r tystion i'r pethau hyn.

### Defynddir gweddi ôl- ynghyd

Fywiol Dduw, amlygodd dy Fab ei hun i'w ddisgyblion yn nhoriad y bara: agor lygaid ein ffydd, fel y gwelwn ef yn ei holl waith gwaredol; sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr a hyd byth. AMEN